

Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin



Astudiaeth Achos - Down to Zero
Tachwedd 2025

1. Y Mudiad

Mae Down to Zero yn Gymdeithas Budd Cymunedol nid er elw a sefydlwyd gan Gymdeithas Tai Cynon Taf yn 2022 fel is-gwmni. Nod Down to Zero yw cefnogi gweithgareddau amgylcheddol dan arweiniad y gymuned sy'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd.



2. Y Prosiect

Dyfarnwyd £334,999 i Gymdeithas Tai Cynon Taf dros 4 blynedd (Mawrth 2023 - Mawrth 2027) o raglen Grantiau Gweithredu Camau Cynaliadwy Cymru. Rhagwelir y bydd cyfanswm cost y prosiect yn £699,833, gyda'r arian cyfatebol yn dod gan y Gymdeithas Tai ac o ffynonellau eraill.

Nod Down to Zero oedd ymgysylltu cymunedau lleol a dinasyddion yn yr agenda newid hinsawdd. Nodau'r prosiect yw lleihau, osgoi a storio carbon trwy weithio gyda phobl leol ar dir ac yna rhannu'r dysgu mor bell ac mor eang â phosibl. Mae gan y prosiect 4 canlyniad allweddol.

Canlyniad 1: Erbyn diwedd pob blwyddyn, bod wedi lleihau/neilltuo allyriadau carbon o tua 189 tonnall o gyfwerth â CO₂ (CO₂e), gan gyfanswm o dros 500 tonnall o gyfwerth â CO₂ dros oes y prosiect.

Canlyniad 2: Erbyn diwedd blwyddyn 4, bod wedi gweithio ac ymgysylltu â dros 150 o bobl o bob oed drwy weithgareddau dal carbon ar y tir, addysg newid ymddygiad a gweithdai newid hinsawdd a chyfleoedd gwirfoddoli.

Canlyniad 3: Rhannu dysgu yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel rhan o waith y prosiect a thrwy bartneriaethau.

Canlyniad 4: Erbyn diwedd blwyddyn 3/4, bod system fwyd a blodau leol wedi datblygu sy'n cyfyngu ar filltiroedd mewnforio ac yn hyrwyddo economïau cylchol gwyrdd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

Mae Grant Gweithredu Camau Cynaliadwy Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer:

- costau cyflog 2 swydd amser llawn Rheolwr Prosiect (cyfredol) a Swyddog Datblygu Gwyrdd (newydd).
- costau cyflawni a rheoli prosiectau.
- prynu tir ger Aberdâr, offer, (gan gynnwys Odyn Biosiarcol, Uned Prosesydd Carbon Thermo Aerobig (TACP)) a cherbyd trydan.

3. Cynnydd hyd yma

Erbyn diwedd Blwyddyn 2 (Mawrth 2025), roedd Down to Zero wedi cofnodi'r canlyniadau canlynol.

Lleihau/Storio Carbon

- Prynu 11 hectar o dir ger Aberdâr a elwir yn Gwlyptiroedd Cwmbach.

Ariannwyd rhan o bris y pryniant gan Grant Gweithredu Camau Cynaliadwy Cymru, gyda swm sylweddol o arian cyfatebol yn dod o Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd. Mae'r prosiect yn amcangyfrif bod dros 10,000 tonnall o CO₂e wedi'i ddiogelu, sydd wedi'i storio yn ei bridd a'i fiomas.



Gwlyptiroedd Cwmbach

Ymgysylltu ag Unigolion a Mudiadau

- 330+ o unigolion wedi ymgysylltu â'r prosiect.

Roedd mwy na 75% o'r unigolion hyn ym Mlwyddyn 1 a rhwng 51% a 75% o unigolion ym Mlwyddyn 2 yn newydd i sgysiau hinsawdd.



Cymerodd 29 o wirfoddolwyr ran ym Mlwyddyn 1 a 34 ym Mlwyddyn 2, gyda dros 7000 o oriau gwirfoddoli yn cael eu cofnodi ym Mlwyddyn 2.

- Cyrsiau Byw Cynaliadwy a Sgiliau

Mae Down to Zero wedi cyflwyno sesiynau ar bynciau fel plannu perllannau, cyflwyniad i gadw gwenyn, atafaelu carbon mewn cynefinoedd, coginio tymhorol, cynhyrchu biosiarcol/siarcol a llawer o sgiliau ymarferol eraill fel coginio fegan, gwneud cadwolion a gwaith coed.

Mae adborth gan gyfranogwyr wedi bod yn gadarnhaol.

“Roeddwn i wrth fy modd yn gwirfoddoli gyda Down to Zero. Roeddwn i wrth fy modd yn gwneud y gwenyn. Mae Mam wedi prynu tŷ gwydr i mi nawr er mwyn i mi allu tyfu llysiau gartref” Gwirfoddolwr Ifanc.

“Ar ôl y cwrs cadw gwenyn, es i a phrynu cwch gwenyn. Mae'n rhywbeth rydw i wedi bod eisiau ei wneud erioed ond heb gael yr hyder.” Cyfranogwr yn y Cwrs Cadw Gwenyn.

- 20+ o fudiadau wedi cymryd rhan yn y prosiect.

Roedd rhwng 51% a 75% o'r mudiadau a oedd yn rhan o'r prosiect ym Mlwyddyn 1 a Mlwyddyn 2 yn newydd i sgysiau hinsawdd.

Mae Down to Zero yn gweithio'n agos gyda rhwydwaith cynyddol o fudiadau gan gynnwys y Men's Shed ym Mhont-y-clun a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Cwm Taf. Trwy'r olaf, mae'r prosiect wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl. Mae'r bobl ifanc sydd wedi gwirfoddoli gyda'r prosiect wedi cynyddu eu sgiliau, eu hyder a'u lles, gyda rhai yn mynd i addysg bellach. Mae'n bosib nad yw'r bobl ifanc hyn sydd mewn perygl/dan anfantais wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithredu ar yr hinsawdd.

Rhannu dysgu

- Rhwydweithiau



Mae Down to Zero wedi cefnogi amrywiaeth o fudiadau drwy Rwydwaith Gweithredu Hinsawdd Rhondda Cynon Taf (RhCT) ac wedi helpu'r rwydwaith i ddatblygu Damcaniaeth Newid a Chynllun Gweithredu. Mae'r prosiect wedi gweithio gyda Rhwydwaith Bwyd RhCT i ddatblygu rhwydwaith bwyd lleol mwy cynaliadwy a charbon isel ac wedi cefnogi datblygiad Strategaeth Bwyd Cynaliadwy RhCT, Taith Bwyd 2025-2030.

Mae Down to Zero wedi cefnogi Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf i ddatblygu Strategaeth Arbedion Carbon Llawn ac wedi cefnogi newid ymddygiad ledled y mudiad ar lefel cyflawni a strategol.

- Gwobrau a chydabyddiaeth

Mae Down to Zero wedi derbyn cydnabyddiaeth am ei waith drwy ennill amrywiaeth o wobrau gan gynnwys:

- Gwobrau Rheoli Tir Cymunedol Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol am waith ar safleoedd Pont-y-clun ac Aberpennar.
- Gwobr "Un i'w Wyllo" Busnes Cymdeithasol Cymru a Chwmpas yng Ngwobrau Mentrau Cymdeithasol Cymru 2024.

System Bwyd a Blodau Lleol

- Tyfu Cymunedol

Mae Down to Zero wedi datblygu tua 1.54 hectar o dir ar gyfer tyfu bwyd dan arweiniad y gymuned gyda 0.81 hectar wedi'i ddatblygu ym Mhont-y-clun a 0.73 hectar pellach yn Aberpennar. Mewn partneriaeth â Fferm Flodau Coalfield, dim ond 0.8 hectar o dir y mae'r prosiect wedi'i ddatblygu ar gyfer cynnwys y gymuned mewn ffermio blodau.

Mae'r safleoedd yn cynnwys 4 polytwnnel ar raddfa fawr gyda systemau casglu dŵr glaw mawr a llinellau diferu, nifer o welyau awyr agored, perllan gymunedol a chychod gwenyn. Mae 250 o goed gwrychoedd a pherllannau wedi'u plannu ar y safleoedd.

Mae'r safleoedd yn darparu tyfu bwyd cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn a chyfleoedd i bobl leol gymryd rhan mewn gweithredu cynaliadwy ar gyfer newid hinsawdd ar y tir. Mae cegin brosesu ar gyfer bwyd a mêl wedi'i datblygu.

- Llys Bocs

Gwasanaeth tanysgrifio bocsys llysiau cynaliadwy yw Llys Bocs. Talodd Grant Gweithredu Camau Cynaliadwy Cymru am brynu'r cerbyd trydan.



Yn 2024-25, danfonodd y fenter 350 o focsys ar draws y Sir i 63 o gwsmeriaid gwahanol. Danfonwyd 15 o focsys bwyd cynaliadwy i Denantiaid Cynon Taf mewn argyfwng, a danfonwyd 25 o focsys bwyd cynaliadwy i Fanc Bwyd Pontypridd fel rhan o Fenter Nadolig Llysiau Ffres Down to Zero. Dosbarthodd Banc Bwyd Pontypridd focsys i deuluoedd lleol mewn angen a choginiodd giniawau Nadolig i'r rhai ar eu pen eu hunain neu mewn argyfwng bwyd dros

gyfnod y gwyliau.

Creu Swyddi

Mae Down to Zero yn cyflogi 4 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn ac wedi defnyddio 2 weithiwr llawrydd yn 2024-25. Mae creu swyddi yn elfen bwysig o'r prosiect.

4. Iaith Sgyrsiau Hinsawdd

Nodi rhwystrau iaith a chyfathrebu

Mae Down to Zero yn cydnabod bod ymgysylltu pobl mewn sgysiaau am newid hinsawdd yn anodd iawn, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu amgylchiadau heriol yn eu bywydau.

Yn aml, mae pobl yn cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw, tlodi bwyd, tlodi, neu'n byw bywydau hynod o brysur a chymhleth. Gall sgysiaau hinsawdd deimlo'n anghysbell ac yn amherthnasol i fywydau pobl.

Mae rhwystrau eraill yn cynnwys diffyg hyder a diffyg cyfle i gymryd rhan mewn sgysiaau am yr hinsawdd.

Sut aeth y prosiect i'r afael â'r rhwystrau

Mae'r prosiect wedi datblygu ffordd o weithio o'r enw "newid hinsawdd achlysurol" sy'n ennyn diddordeb pobl leol ac yn cefnogi newid ymddygiad trwy "sgysiaau hinsawdd achlysurol". Mae'r

term wedi'i fathu o arfer gorau addysg Gymraeg/dwyieithog o ran Cymraeg achlysurol. Cymraeg achlysurol yw lle mae'r Gymraeg yn cael ei hintegreiddio a'i defnyddio'n anymwybodol/isymwybodol mewn sgysiau bob dydd a fyddai fel arall yn uniaith, mae'r ymagwedd hon yn amlygu pobl, mewn modd cynnil, na fyddai fel arall yn clywed llawer o Gymraeg a gall yn aml gefnogi diddordeb a datblygiad addysgol yn y pwnc.

Mae sgysiau hinsawdd achlysurol yn aml yn digwydd yn ystod gweithgareddau ymarferol ac yn dechrau gyda manteision bob dydd gweithgaredd yn hytrach na chanolbwyntio ar ei rinweddau cadarnhaol o ran yr hinsawdd. Galwodd rhai o staff y prosiect yn y digwyddiad dysgu'r ymagwedd hon yn "dod o hyd i ffordd i mewn" i ddisgrifio'r ffordd y mae sgysiau hinsawdd achlysurol yn digwydd ar gefn gweithgareddau eraill.

Cynhaliwyd sgysiau ynghylch manteision dim cloddio, compostio, lleihau gwastraff, cynnyrch lleol, pren lleol ar gyfer storio carbon, milltiroedd bwyd is, manteision peillwyr ar gyfer twf coed a mwy. Cyflwynwyd sgysiau hinsawdd drwy egluro mewn sesiynau ymarferol, "dyma pam rydyn ni'n gwneud hyn" i flaenoriaethu'r manteision nad ydynt yn gysylltiedig â'r hinsawdd. Er enghraifft, "rydym yn gwneud hyn i wella'r llysiau a gynhyrchir yn ogystal â bod yn ymagwedd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd". Mae gwneud sgysiau'n berthnasol i fywydau pobl fel gwella'r byd i wyrion hefyd yn bwysig.

Mae Down to Zero wedi sylwi bod yr ymagwedd yn cefnogi gwybodaeth ac yn gwella hyder y bobl sy'n cymryd rhan.



Gwahoddodd Down to Zero Bencampwyr Ffermydd Cymdeithasol a Gerddi Camau Gwyrdd (grwpiau tyfu cymunedol) i ddigwyddiad ar safle Down to Zero ym Mhont-y-clun, ym mis Medi 2024. Rhoddodd y digwyddiad hwn ymagwedd newid hinsawdd achlysurol ar waith trwy ymweliad â'r safle. Rhoddodd gyfle i grwpiau tyfu cymunedol drafod newid hinsawdd yng nghydestun dysgu am y gweithgareddau tyfu ar y safle.



Llwyddiannau mewn sgysiau hinsawdd


Casglodd Down to Zero ddata drwy arolygon ac adborth gan bobl leol, aelodau staff a mudiadau partner i ddeall i ba raddau y mae eu hymagwedd, gan gynnwys y ffordd y maent yn defnyddio iaith, wedi bod yn llwyddiannus.

Gofynnwyd i bobl a gymerodd ran yn y prosiect, yn dilyn eu cyfranogiad, roi sgôr ar raddfa o 1-5 yn erbyn y datganiadau canlynol.

- Rwy'n gwybod mwy am arferion tir sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Rwy'n teimlo'n ysbrydoledig i wneud neu ddysgu mwy am fioamrywiaeth, cynaliadwyedd amgylcheddol a mynd i'r afael â newid hinsawdd.


Mae'r ffigurau isod, er eu bod yn seiliedig ar nifer fach o gyfranogwyr yn unig, yn dangos gwybodaeth gynyddol ac awydd i wneud a dysgu mwy. Adroddwyd ar y ffigurau hyn yn Adroddiad Blynyddol cyntaf Down to Zero, (2023/2024)

Ffigur 1: Mwy o wybodaeth am arferion tir sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol



20 o ymatebwyr Sgôr cyfartalog 4.2.

Ffigur 2: Mwy o wybodaeth am arferion tir sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol.



20 o ymatebwyr Ymateb cyfartalog 3.9

Mae pobl yn teimlo bod y prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.

"Prosiect gwyh gyda manteision clir a niferus i'r gymuned leol sydd hefyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd. Rydw i eisoes wedi dysgu llawer iawn trwy fy nghyfranogiad. Rydw i wir yn mwynhau pob awr rydw i'n ei dreulio yn Down to Zero! Mae'n un o uchafbwyntiau fy wythnos." Gareth. Gwirfoddolwr rheolaidd.

"Mae'r gwaith rydw i wedi'i wneud gyda'r prosiect wedi rhoi bywyd newydd i mi sydd wedi helpu i roi ffocws i fy iechyd meddwl ac wedi rhoi'r cyfle i mi ddysgu sgiliau newydd, gan ddysgu am faint rydyn ni'n ei wastraffu fel cymdeithas a pha mor wael ydyw i'r amgylchedd. Gyda'n prosiect rydym yn ceisio arbed cymaint ag y gallwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Dave Gwirfoddolwr rheolaidd ac aelod o'r gymuned.

Heriau mewn sgysiau hinsawdd

Mae staff Down to Zero wedi bod yn ymwybodol nad yw mudiadau yn ogystal â chyfranogwyr prosiectau bob amser yn ymwybodol o'r derminoleg a ddefnyddir mewn sgysiau hinsawdd.

Mae'r dyfyniad canlynol gan aelod o staff.

"Rwyf wedi cael y cyfle i fod yn rhan o brosiect arloesol sydd wedi fy herio i ddysgu am atebion sy'n seiliedig ar natur i newid hinsawdd yn lleol. Rwyf wedi cael fy mentora gan Tom sydd wedi fy annog i ymestyn fy nealltwriaeth strategol ac ehangu fy rhwydwaith i ddysgu a gweithio ar y cyd i ddod o hyd i atebion i newid hinsawdd. Mae wedi bod yn brofiad ffrwythlon yn fy ngyrfa ac wedi atgyfnerthu fy mwriad i wneud yr hyn a allaf i leihau effaith Newid Hinsawdd."



Cynaeafu Cynnyrch Lleol

5. Dysgu Allweddol

Gellir crynhoi'r dysgu allweddol am iaith a chyfathrebu o brosiect Down to Zero fel a ganlyn.

- **Darparwch gyfleoedd ar gyfer sgysiau.** Mae'r gweithgareddau ar safleoedd y prosiect yn darparu cyfleoedd i bobl ymgysylltu â sgysiau am yr hinsawdd. Mae'n rhoi cyfleoedd i bobl ofyn cwestiynau.
- Mae **ymagwedd sy'n seiliedig ar weithredu** yn gwneud sgysiau hinsawdd yn berthnasol i fywydau pobl.
- Mae **sgysiau hinsawdd achlysurol** yn ffordd o gyflwyno agweddau hinsawdd drwy drafod, "dyma pam rydyn ni'n gwneud hyn" a thrwy wneud ymwybyddiaeth o hinsawdd yn rhan o fywyd bob dydd gyda manteision cadarnhaol i deuluoedd.

Ynglŷn â rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu ac Egin

Caiff Camau Cynaliadwy Cymru ei gyflwyno gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'i gefnogi gan arian o'r Cynllun Asedau Segur. Mae Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin yn ddwy o bedair rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru. Maent yn cefnogi ymrwymiad Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:

- i greu dyfodol cynaliadwy
- i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd sydd eisiau gweithredu ar newid hinsawdd.

Nod **Grantiau Egin** (2023–2030) yw helpu grwpiau cymunedol i weithredu ar newid hinsawdd a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae ariannu ar gael hyd at £15,000. Mae ar agor i grwpiau sy'n derbyn cefnogaeth gan [Gamau Cynaliadwy Cymru – Gwasanaeth Mentora Egin](#).

Nod **Grantiau Gweithredu** (2022–2028) yw mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn cymunedau a helpu pobl i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Dyfarnwyd arian i 14 o brosiectau, yn amrywio o £10,001 i £350,000. Gallwch ddysgu mwy am [Grantiau Egin](#) a [Grantiau Gweithredu](#) ar wefan y Gronfa.

Ynglŷn â'r gwerthusiad

Penodwyd Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, gyda Liz Bickerton Consulting, gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn 2022 i werthuso Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin. Nod y tîm gwerthuso yw cynhyrchu dysgu a thystiolaeth o effaith ar draws y rhaglen, gan ganolbwyntio ar sut mae'r grantiau'n ymgysylltu â phobl a grwpiau newydd mewn gweithredu ar yr hinsawdd, yn ysgogi newid ymddygiad, ac yn lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwerthusiad yn rhedeg tan 2027.

Ynglŷn â'r astudiaeth achos hon

Dyma un o dair astudiaeth achos prosiect o ymchwil a archwiliodd rwystrau iaith a chyfathrebu wrth ymgysylltu â chymunedau ar newid hinsawdd, a sut mae prosiectau wedi gweithio i'w goresgyn. Crynhoir y dulliau a'r canfyddiadau yn Adroddiad Mewnwelediad #2 "Sero Net – Beth Net?".